

OUR DAILY BREAD

FOOD IN GOD'S CREATION

Gweddïau o Eiriolaeth

gan y Chwaer Catherine Brennan ssl a'r Chwaer Ann Concannon ssl



Ffoto: [Susy Morris](#) ©

Cyfes 1 – Bwyd yng Nghreadigaeth Duw

Dduw'r Creawdwr, am filoedd o flynyddoedd rydym ni, dy bobl, wedi cydweithio â'th bŵer creadigol oedd ar waith yn y tir a'r moroedd o'n cwmpas i gynhyrchu bwyd i roi maeth i ni a'n plant. Helpa ni i barhau i barchu'r ddaear ei hun a'r prosesau naturiol o'n cwmpas, fel bod modd i genedlaethau'r dyfodol gael eu cynnal gan yr un ddaear hael honno sy'n rhoi bywyd.

O Dduw, clyw ein gweddi,

Ymateb: O Dduw, rho dy gariad at y Greadigaeth gyfan i ni

Dduw haelionus, boed i rannu bwyd a diod ein cadw'n ymwybodol o'n dibyniaeth ar bopeth byw am fywyd a nerth. Boed iddo gynyddu ein parch at y tir, y môr a'r awyr.

O Dduw, clyw ein gweddi,

Ymateb: O Dduw, rho dy gariad at y Greadigaeth gyfan i ni

Dduw'r Creawdwr, rydym yn gwybod bod yr anifeiliaid sy'n darparu cig i ni yn greaduriaid sy'n teimlo. Boed i ni sicrhau, o leiaf, trwy ein pŵer prynu, fod anifeiliaid yn cael eu magu, eu cludo a'u lladd o dan amodau parchus.

O Dduw, clyw ein gweddi,

Ymateb: O Dduw, rho dy gariad at y Greadigaeth gyfan i ni

Ysbryd y Creawdwr, rho i ni'r undeb y gweddïodd Crist amdano yn y Swper Olaf, er mwyn i ni gyda'n gilydd wella ansawdd popeth sy'n byw ac yn tyfu.

O Dduw, clyw ein gweddi,

Ymateb: O Dduw, rho dy gariad at y Greadigaeth gyfan i ni

Diolchwn am y ddaear a'i digonedd sy'n rhoi ffrwythau yn eu tymor. Helpa ni i barchu natur dymhorol bywyd wrth ddewis bwyd, gan dderbyn yr hyn y mae'r ddaear yn ei gynhyrchu'n naturiol ym mhob tymor, a bod yn barod i aros am y cynnyrch y mae ein hinsawdd dymherus yn ei gynhyrchu'n araf.

O Dduw, clyw ein gweddi,

Ymateb: O Dduw, rho dy gariad at y Greadigaeth gyfan i ni

Offeiriad/arweinydd: O Dduw, boed i ni ddefnyddio rhodd ein synhwyrâu i weld, arogl, cyffwrdd a blasu dy ddaioni, a welir yn y bara beunyddiol a rannwn. Bendithia ni wrth i ni fyw ein bywydau mewn ymwybyddiaeth o fyd natur, dy rodd gariadus. Pâr i ni gofio bob amser am y bobl newynog sy'n rhannu'r ddaear gyda ni a gwna ni'n hael wrth ddarparu ar gyfer eu hanghenion. Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. **Amen**

Cyfres 2 – Creadigaeth Duw, bwyd a ninnau

Grist Iesu, tosturiaist wrth y dorf a'u bwydo. Helpa arweinwyr y byd i wneud popeth o fewn eu gallu i fwydo pobl newynog ein byd ni heddiw.

O Arglwydd, clyw ein gweddi,

Ymateb: O Arglwydd, rho i ni dy gariad

Dduw Cariadus, trwy dy gariad at y ddaear a'i ffrwythau, helpu ni i wneud iawn am y niwed a wnaethom i'n planed, fel na fydd cenedlaethau'r dyfodol yn newynnu.

O Arglwydd, clyw ein gweddi,

Ymateb: O Arglwydd, rho i ni dy gariad

Mae dy atgyfodiad, O Grist, wedi gwednewid ein bydysawd. Gwna ni'n alluog i deimlo consyrn newydd hollgynhwysol at ein hamgylchedd, a pharch gostyngedig at bob creadur sy'n rhannu ffynhonnell gyffredin, sef Creawdwr cariadus.

O Arglwydd, clyw ein gweddi,

Ymateb: O Arglwydd, rho i ni dy gariad

Grist Iesu, rwyt ti'n dod atom yn nhorriad y bara, er mwyn i ni ddathlu ein hundod â holl gymuned bywyd a rhoi ein bywydau mewn gwasanaeth. Helpa ni i fyw'n symlach, fel bod eraill yn cael cyfle i fyw.

O Arglwydd, clyw ein gweddi,

Ymateb: O Arglwydd, rho i ni dy gariad

Dduw'r Creawdwr, helpa ni i garu a gofalu am gynnyrch y tir, y môr a'r awyr, gan gydnabod y cyfan yn rhoddion gennyti i'w trysori, eu diogelu a'u rhannu.

O Arglwydd, clyw ein gweddi,

Ymateb: O Arglwydd, rho i ni dy gariad

Grist Iesu, fe wnest ti ein sicrhau bod Duw yn ein caru. Boed i ni bob amser barchu ein cyrff a'n lles ysbrydol trwy ddefnydd cymedrol o roddion da ein byd.

O Arglwydd, clyw ein gweddi,

Ymateb: O Arglwydd, rho i ni dy gariad

Offeiriad/arweinydd: O Dduw, yn ein holl ymwneud â bwyd, helpa ni i fod yn ymwybodol o natur ryngddibynnol gymhleth pob bywyd a grewyd. Boed i ni fwyta ein prydau mewn undod â'r creadigaeth ac mewn cymundeb â thi. Gofynnwn hyn yn enw Crist, bara'r bywyd. **Amen**